Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

National Assembly for Wales
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

James Wilson
Cyfarwyddwr
Cregyn Gleision Bangor

3 Ebrill 2019

Annwyl James,

Ar ran y Pwyllgor, diolch am y croeso a gawsom gennych ddydd Iau diwethaf.

Fel y gwyddoch, mae dyfodol polisi bwyd a physgodfeydd yng Nghymru yn feysydd allweddol i'r Pwyllgor. Roeddem yn falch o'r cyfle i gwrdd i drafod y materion, ac fe wnaethom fwynhau'n fawr y profiad o ymweld â chi.

Yn ystod ein trafodaethau, gwnaethoch godi nifer o faterion pwysig, a bydd y Pwyllgor yn datblygu'r rhain a'u cynnwys yn ei adroddiad ar Ailfeddwl am Fwyd yng Nghymru.

Roedd gennym ddiddordeb arbennig hefyd yn yr hyn sydd gennych i'w gynnig ynghylch y materion yr ydych yn eu rhagweld yn codi ar ôl Brexit a'ch pryderon ynghylch Bil Pysgodfeydd Llywodraeth y DU.

Gobeithio y byddwch yn parhau i rannu eich arbenigedd â'r Pwyllgor. Rydym yn gobeithio y byddwch yn gallu dod i un o gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor yn y dyfodol i rannu eich arbenigedd â ni pan fydd y Pwyllgor yn trafod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, "Brexit a'n Moroedd".

Yn gywir,

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565